

Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Comisiynydd 21/22

CYFLWYNIAD

Ym mis Mai 2021, cefais fy ail ethol i wasanaethu fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent am ail dymor.

Rwyf wrth fy modd i wasanaethu Gwent am dymor arall a hoffwn ddiolch o galon i bawb a roddodd o'u hamser i bleidleisio yn yr etholiad. Ail benodais fy nirprwy, Eleri Thomas, sy'n parhau i arwain gwaith strategol fy swyddfa ar faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, cyfiawnder troseddol, a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Tair blynedd fydd cyfnod y swydd y tro hwn yn hytrach na phedair, gan fod yr etholiad wedi cael ei gohirio am flwyddyn oherwydd y pandemig.

Rwyf yn anhygoel o falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod fy nhymor cyntaf, yn gweithio gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent a phartneriaid allweddol. Gyda'n gilydd gwnaethom weithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, meithrin gwell cydlyniant yn ein cymunedau, a sicrhau bod gan Heddlu Gwent yr adnoddau angenrheidiol i amddiffyn a thawelu meddwl ein trigolion.

Yn ôl y ffigyrau trosedd blynyddol a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae Gwent yn dal i fod yn un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddo yn y DU. Ymatebodd Heddlu Gwent i fwy na 170,000 o ddigwyddiadau'r llynedd, gan gofnodi mwy na 53,000 o droseddau. Mae hyn yn cymharu â 176,000 digwyddiad a 47,000 o droseddau yn ystod 2020/21 pan oedd y pandemig yn ei anterth, a 183,000 digwyddiad a 58,000 o droseddau yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd.

Mae'r canllawiau cenedlaethol wedi llacio'n sylweddol dros y misoedd diwethaf, wrth i gyfraddau heintiau gwmpo a lefelau'r brechlyn godi. Serch hynny, rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon. Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd fy swyddfa i gysylltu â'r cyfarfodydd grwpiau Aur Covid-19 a gynhaliwyd gan Heddlu Gwent a parhaodd holl staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) i weithio gartref yn bennaf, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Cymru ar lefel rhybudd 0.

Rydym yng nghanol argyfwng costau byw hefyd sydd wedi cael ei ysgogi gan yr adferiad yn dilyn y pandemig a phroblemau daearwleidyddol sylweddol eraill, nad ydym wedi gweld eu tebyg ers cenhedlaeth. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith llawn hyn ar fywydau a bywoliaeth pobl a chymunedau Gwent, ond mae'n bosibl y bydd yn cael effaith bellgyrhaeddol o ran trosedd a diogelwch cymunedol. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Heddlu Gwent, partneriaid a'r cyhoedd i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl Gwent a darparu gwasanaeth plismona cyfrifol.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i holl swyddogion a staff Heddlu Gwent, fy nhîm yn Swyddfa'r Comisiynydd, a'n sefydliadau partner am eu gwaith caled a'u hymroddiad i wasanaethu pobl Gwent trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD NEWYDD

Trwy gydol cyfnod yr haf, gweithiodd fy swyddfa a minnau yn helaeth ar fy Nghynllun Heddlu a Throsedd newydd. Yn ogystal â chynnwys Cynllun Gorchfygu Trosedd annisgwyl Llywodraeth y DU, galw lleol, yr angen am waith partner cynhyrchiol ac ymchwil sylweddol, gwnaethom hefyd weithio'n galed i sicrhau bod barn pobl yng Ngwent yn cael ei chlywed er mwyn llywio'r cynllun.

Datblygais fy nghynllun yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol a gwrandawais ar amrywiaeth o safbwyntiau gan bobl o bob rhan o Went. Er mwyn gwneud hyn, cynhaliais 30 digwyddiad ymgysylltu, cyfanswm o 196 awr. Siaradodd fy nhîm a minnau gyda dros 3,000 o bobl, ac o ganlyniad cwblhawyd yr arolwg gan 375 o bobl. Hyd yn oed pan nad oedd pobl wedi cwblhau'r arolwg, roedd yn bosibl cipio ac adolygu sylwadau er mwyn i ni allu chwilio am themâu, problemau a materion roedd pobl yn teimlo'n angerddol yn eu cylch. Roedd hyn yn ychwanegol at y 1,461 o bobl a gwblhaodd yr arolwg ar-lein, a oedd yn golygu bod 1,836 o bobl wedi rhannu eu barn trwy gwblhau'r arolwg ar flaenoriaethau plismona yng Ngwent mewn cyfnod o saith wythnos. Cefais gyfle hefyd i adolygu sylwadau roedd pobl wedi eu postio ar-lein ac ystyried y rheini hefyd. Gweithiodd fy nhîm a minnau'n helaeth gyda Heddlu Gwent hefyd i ddeall y pwysau mae'n eu hwynebu, y glaw dyddiol arno a'r ffordd orau i gynnwys hyn yn y mesurau perfformiad rydym yn eu pennu. Trwy gasglu'r safbwyntiau hyn, cefais well dealltwriaeth o'r hyn sydd o bwys i bobl Gwent, rhanddeiliaid allweddol a'n partneriaid plismona.

Hoffwn ddiolch i bawb a rannodd eu barn gyda ni. Ystyriais y cyfan wrth ysgrifennu fy nghynllun, ac mae hyn yn rhoi cryn hyder i mi y bydd fy nghynllun yn rhoi sylw i'r materion sydd o'r pwys mwyaf i bobl Gwent.

Mae'r cynllun yn dangos yr amrywiaeth eang o broblemau a heriau y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw os ydym ni am wneud Gwent yn lle hyd yn oed mwy diogel. Y blaenoriaethau newydd ar gyfer Gwent yw:

- Cadw Cymdogaethau'n Ddiogel
- Brwydro yn erbyn Troseddau Difrifol
- Rhoi Cymorth i Ddiodefgyr ac Amddiffyn Pobl Agored i Niwed
- Cynyddu Hyder y Gymuned mewn Plismona
- Ysgogi Plismona Cynaliadwy


Fodd bynnag, ers llacio cyfyngiadau Covid-19 ac yn sgil yr argyfwng costau byw, rydym wedi gweld rhywfaint o gynnwrf yn y nifer a'r mathau o droseddau, digwyddiadau a galwadau am wasanaeth ar 999, 101 a thrwy sianeli cysylltu eraill. Byddaf yn mynd ati i fonitro hyn a sicrhau bod fy nghynllun yn newid i gyd-fynd â'r darlun newidiol hwn os oes angen.

Gan hynny, er mwyn cefnogi gwaith i gyflawni fy nghynllun, mae fy nhîm a minnau wedi caboli'r fframwaith perfformiad sy'n sail iddo. Byddaf yn derbyn adroddiadau gan Heddlu Gwent ynghylch y dangosyddion hyn dros y tair blynedd nesaf.

CADW CYMDOGAETHAU'N DDIOGEL

Mynd i'r afael â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles cymunedau yng Ngwent

Mae'r ffaith bod y ffigyrau trosedd yn gostwng yn gyffredinol yn gadarnhaol, ond ni allwn fod yn hunanfodlon wrth i ni barhau i ddod dros y pandemig ac wrth i'r argyfwng costau byw bwyso ar bawb. Fel un o gyd-arweinwyr y portffolio plismona lleol ar gyfer Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, rwyf yn awyddus bod yr arfer gorau a ddatblygir yn cael ei ddefnyddio yma yng Ngwent er mwyn parhau i wella perfformiad.



Fel y gwelwch yn y tabl uchod, mae rhywfaint o'r cynnwrf y soniais amdano ers i'r pandemig ddechrau yn cael ei adlewyrchu yn y lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ledled Gwent. Gwelsom frigau a chafnau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu cyflwyno ac yna eu llacio. Er na allwn wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng eleni a'r ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf yn falch, trwy gydol 2020/21, bod hyn wedi sefydlogi ac yn agosach at lefelau cyn y pandemig. Rwyf yn falch hefyd i weld bod lefelau byrgleriaeth breswyl, dwyn o siopau, troseddau cerbydau, beiciau a mathau eraill o ddwyn wedi aros yn isel, ac nad ydynt wedi cynyddu yn yr un ffordd a mathau eraill o droseddau. Rydym wedi gweld lefelau hanesyddol o isel o ran galw swyddogion allan at wrthdrawiadau cerbydau a, diolch i'r drefn, lleihad cyson yn nifer y bobl s'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.

Fodd bynnag, mae cyfraddau pobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol fwy nac unwaith a phobl sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol fwy nag unwaith yn achos pryder, gyda thuedd ar i fyny yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn awyddus i weld y tueddiad hwn yn cael ei wrthdroi. Mae Heddlu Gwent a fy swyddfa yn canolbwyntio ar bobl sy'n cyflawni'r gweithredoedd hyn dro ar ôl tro, sydd yn ymrwymiad penodol yn fy nghynllun. Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, rwyf yn awyddus i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i hybu fy mlaenoriaeth o gadw cymdogaethau yn ddiogel.

Diogelwch ar y ffyrdd

Mae gan Heddlu Gwent Uned Plismona ffyrdd a Gweithrediadau Arbenigol newydd sy'n cynnwys rhai o'r argymhellion a wnes i mewn adolygiad o blismona ffyrdd yng Ngwent y llynedd. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi mewn dulliau casglu data ac ymchwil mwy arbenigol er mwyn deall achosion sylfaenol gwrthdrawiadau traffig yng Ngwent yn well, a rhoi mesurau perfformiad newydd ar waith i gael gwell dealltwriaeth o berfformiad yr heddlu. Caiff y gwelliannau hyn eu cefnogi gan ymgyrchoedd lleol fel Ymgyrch Utah (diwrnod o weithredu amlasiantaeth i fynd i'r afael â defnyddwyr ffyrdd sy'n rhoi modurwyr eraill mewn perygl) a Phrosiect EDWARD. Yn rhan o Brosiect EDWARD, sy'n golygu 'Every Day Without A Road Death', gwnaethom ymweld â Choleg Gwent i roi golwg onest i fyfyrwyr ar effaith gyrru diofal. Mae addysgu gyrwyr yn hollbwysig er mwyn cadw ein ffyrdd a chymunedau'n ddiogel. Roedd chweched Wythnos Fyd-eang Diogelwch ar y Ffyrdd y Cenhedloedd Unedig yn galw am derfynau cyflymder 20mya ar ffyrdd mewn ardaloedd lle mae pobl yn cerdded, byw a chwarae. Rwyf yn aelod o grŵp llywio Llywodraeth Cymru sydd eisiau gosod terfyn cyflymder safonol o 20mya ar bob ffordd drefol yng Nghymru erbyn 2023. Ar hyn o bryd rydym yn rhan o brosiect peilot i weld sut byddai terfyn 20mya yn gweithio. Bydd y newid hwn yn helpu i achub bywydau yn ein cymunedau.

Troseddau cefn gwlad

Mae ffermydd a busnesau lleol yn rhannau pwysig iawn o'n heconomi, ond mae eu maint a'u lleoliadau anghysbell yn eu gwneud yn arbennig o agored i ladrata. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ymuno â thîm troseddau cefn gwlad Heddlu Gwent mewn cyfarfod gyda ffermwyr a chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Yn ogystal â gwrando ar bryderon lleol a thawelu meddwl pobl am yr holl waith rhagweithiol mae Heddlu Gwent yn ei wneud i fynd i'r afael â throseddau cefn gwlad, gwnaethom hyrwyddo Dangos y Drws i Drosedd (gweler isod), sy'n helpu i fynd i'r afael â throseddau meddiangar fel byrgleriaeth a dwyn. Mae Dangos y Drws i Drosedd wedi cael ei brofi i fod yn effeithiol iawn mewn ardaloedd gwledig, nid yn unig yn gwella diogelwch ond hefyd yn mynd i'r afael â'r gadwyn gyflenwi droseddol hefyd.

Strydoedd Saffach

Yn ystod y flwyddyn, buom yn llwyddiannus mewn dwy o'r tair rownd ymgeisio am gyllid Strydoedd Saffach. Yn yr ail rownd ymgeisio, cawsom £699,564 gan y Swyddfa Gartref i ariannu mesurau atal trosedd ym Mhilogwenlli a Rhymni. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dosbarthu cloeon drysau, cloeon ffenestri a chamerau CCTV ar glychau drws, yn ogystal â gosod goleuadau gwell. Mae trigolion wedi derbyn cyngor diogelwch hefyd. Mae mesurau pellach yn cynnwys siarad â gwerthwyr ail law a allai ddod i gysylltiad â nwyddau wedi'u dwyn y bwriedir eu gwerthu ymlaen i'r cyhoedd. Yn y drydedd rownd ymgeisio, cawsom £673,181 o gyllid Strydoedd Saffach ar gyfer Casnewydd a'r Fenni. Mae grant y Swyddfa Gartref yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch mewn mannau cyhoeddus. Dyrannwyd £395,225 i wardiau Stow Hill a Victoria yng Nghasnewydd; derbyniodd wardiau Grofield a Priory yn Y Fenni

£277,956. Mae rhaglen addysgol yn cael ei darparu i helpu i newid agweddau ac ymddygiad annerbyniol tuag at fenywod a merched, rhoi cyngor ar sut i gadw'n ddiogel ac annog pobl i riportio troseddau. Mae cynllun busnes 'mannau diogel' yn cael ei sefydlu er mwyn i fusnesau lleol allu darparu lle diogel i fenywod a merched gael mynediad at gymorth. Mae mwy o oleuadau stryd a bolardiau golau, camerâu CCTV a giatiau mewn lonydd cefn yn cael eu gosod mewn mannau lle mae trosedd yn broblem. Bydd gwarcheidwaid diogelwch cymunedol symudol yn cynnal patrolau yng nghanol dinas Casnewydd a chanol tref Y Fenni. Roedd ein llwyddiant yn y rowndiau ymgeisio'n ganlyniad misoedd o waith partner. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Heddlu Gwent i annog menywod a merched o Went i'n helpu ni i ganfod problemau a'r meysydd yr oedd angen eu gwella. O'r 300 ymateb i arolwg gan Gyngor Dinas Casnewydd i lywio'r cais hwn, daeth 178 ymateb o ganlyniad i'n gwaith hyrwyddo ni.

Dangos y Drws i Drosedd

Lansiwyd ymgyrch newydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â throsedd meddiangar fel byrgleriaeth a dwyn yng Ngwent eleni. Mae Dangos y Drws i Drosedd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan heddluoedd yn Lloegr i leihau ail-droseddu ac erledigaeth, felly rwyf yn falch ein bod yn arwain yng Nghymru trwy ei gyflwyno yma yng Ngwent. Trwy gydol y flwyddyn, es allan gyda swyddogion lleol ym mhob un o'r pum sir yng Ngwent i siarad â phobl a busnesau am yr ymgyrch a sut gall eu helpu nhw i gadw'n ddiogel. Rydym wedi ymroi i danysgrifennu cost yr ymgyrch hwn gan hyd at £210,000 y flwyddyn am dair blynedd. Rhwng Mawrth 2021 a Mai 2022, llwyddodd y tîm i wneud y canlynol:

- Dosbarthu 4,030 pecyn SmartWater;
- Marcio 906 beic, 254 troswr catalytig a 65 beic modur yn fforensig;
- Adolygu 4,687 trosedd meddiangar;
- Adfer gwerth £110,000 o nwyddau wedi'u dwyn; a
- Cofrestru hyd at 59 o werthwyr nwyddau ail law ar y cynllun.

Dyfodol Cadarnhaol


Rhaglen cynhwysiant cymdeithasol yw Dyfodol Cadarnhaol, sy'n defnyddio chwaraeon i ymgysylltu â phobl ifanc. Mae'r tîm Dyfodol Cadarnhaol yn cynnal amrywiaeth o sesiynau gwirfoddol, mynediad agored ledled Gwent, yn ogystal â gwaith wedi'i dargedu gyda phobl ifanc trwy atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Caiff cyllid y Comisiynydd ei ddefnyddio'n bennaf i ariannu cyflogau arweinwyr prosiect er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau dargyfeiriol, ac ymgysylltu wedi'u targedu gydag unigolion a grwpiau. Yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon wythnosol a gwaith wedi'i dargedu gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, mae prosiectau allweddol eleni'n cynnwys:


- Rhaglen Beilot Deall y Sbardunau Gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu 'rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo' gyda phobl ifanc sydd wedi cael eu canfod i fod mewn perygl.
- Prosiect Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid. Sesiynau pêl-droed wythnosol, yn cael eu darparu mewn partneriaeth â Sanctuary yng Nghasnewydd, ar gyfer dynion ifanc ar faes pêl-droed ym Mhilogwenlli. Mae'r sesiynau am ddim ac yn gyfle i ymgysylltu â staff, gan dderbyn cymorth ble y bo'n bosibl.
- Sesiynau sglefr fyrddio yn cael eu cynnal ledled ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar nos Wener.
- Sesiynau nofio gyda grŵp o deithwyr ym Mhont-y-pŵl. Roedd y grŵp wedi bod yn achosi problemau yn y ganolfan hamdden yn y gorffennol ac un o amcanion y prosiect hwn oedd meithrin cydberthynas rhwng y bobl ifanc a staff y ganolfan.

BRWYDRO YN ERBYN TROSEDDAU DIFRIFOL


Atal a lleihau troseddau sy'n achosi niwed sylweddol i gymunedau a dioddefwyr.


Nod y flaenoriaeth hon yw canolbwyntio ar droseddau sydd â'r posibilrwydd o achosi niwed sylweddol i bobl a chymunedau. Er enghraifft, trosedd a thrais difrifol a chyfundrefnol, cam-fanteisio troseddol a rhywiol ar blant, trosedd casineb a therfysgaeth. Yn ogystal â'r troseddau hyn bydd dileu trais yn erbyn menywod a merched wrth wraidd ein gwaith. Bydd yn peri bod rhaid ymateb yn gadarn i dreisio a throseddau rhywiol eraill, cam-drin domestig a stelcio ac aflonyddu.





Mae wedi bod yn ddarlun cymysg trwy gydol y flwyddyn, gyda lefelau trais difrifol yn ôl lle'r oeddent cyn y pandemig. Diolch i'r drefn, mae'r niferoedd cyffredinol yn dal yn isel ar y cyfan. Mae llawer o'r cynnydd eleni oherwydd llacio cyfyngiadau, ond rwy'n awyddus nad yw pethau'n mynd yn ôl i fel yr oedden nhw o ran trosedd difrifol. Dyma pam rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel Ymddiriedaeth St Giles a Fearless i geisio atal plant a phobl ifanc rhag dechrau ymwneud â throsedd yn ifanc. Rwyf yn falch bod troseddau cyffuriau wedi parhau i ostwng. Mae Uned Troseddau Cyfundrefnol Gwent a'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol wedi cael canlyniadau ardderchog yn ystod y flwyddyn. Mae difrifoldeb niwed cam-fanteisio'n droseddol ar blant a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant yn gofyn am waith partner cadarn. Mae Heddlu Gwent yn cynnal Ymgyrch Quartz, gyda dau dîm arbenigol yn canolbwyntio ar gam-fanteisio'n droseddol/rhywiol ar blant yn ardaloedd plismona lleol y dwyrain a'r gorllewin. Mae Ymgyrch Quartz yn gweithio i sicrhau bod gan swyddogion yr hyn sydd ei angen arnynt i ymdrin â cham-fanteisio troseddol/rhywiol ar blant ac atal erledigaeth. Mae'n adnabod pobl sydd mewn perygl ac yn cymryd camau priodol i'w hamddiffyn nhw. Mae'n ymlid tramgwyddwyr yn ddiflino yn defnyddio amrywiaeth o dactegau i'w herlyn a/neu i darfu ar eu gweithgareddau.





Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae'n amlwg yn achos pryder bod treisio, troseddau rhywiol difrifol, a thrais yn erbyn menywod a merched (yn ogystal â cham-drin domestig a thrais rhywiol) wedi cynyddu. Serch hynny, rwyf yn falch bod dioddefwyr bregus y troseddau hyn yn teimlo'n fwy hyderus y gallant eu riportio i'r heddlu. Un o'r ymrwymadau yn fy nghynllun, sy'n cael ei rannu gan y Prif Gwnstabl, yw parhau i godi hyder pobl agored i niwed sydd wedi dioddef troseddau difrifol i riportio'r mater wrth yr heddlu, gan wybod y byddant yn derbyn gwasanaeth rhagorol pan fyddant yn gwneud hynny. Byddaf yn parhau i hyrwyddo anghenion dioddefwyr a sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent iddynt yn ardderchog. Gellir dweud yr un peth am fy ymrwymiad i leihau cam-fanteisio ar bobl, yn arbennig cam-fanteisio'n droseddol/rhywiol ar blant a chaethwasiaeth fodern. Mae angen i ni wella ein gwaith o adnabod dioddefwyr, eu diogelu nhw a'u cefnogi nhw, a chymryd camau priodol i ymlid troseddau. Rwyf yn falch ein bod wedi bod yn adnabod mwy o enghreifftiau o'r troseddau cudd hyn yn ystod y flwyddyn.

Mae tasglu Cymru gyfan newydd sy'n dwyn asiantaethau at ei gilydd yn gweithio i herio agweddau ac ymddygiad ledled Cymru ac ail adeiladu ymddiriedaeth menywod mewn plismona yn dilyn llofruddiaeth Sarah Everard. Mae'r tasglu VAWDASV yn cael ei gyd gadeirio gan fy nirprwy, Eleri Thomas a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru, Emma Wools. Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent, Amanda Blakeman, yw arweinydd gweithredol y tasglu, sy'n ymdrechu i greu diwylliant o ddim goddefgarwch i gasineb at ferched ac agweddau rhywiaethol, hiliol a homoffobaidd. Bob dydd, mae'r mwyafrif helaeth o swyddogion yn darparu gwasanaeth eithriadol i'r cyhoedd a rhaid i ni beidio â gadael i'r lleiafrif reoli canfyddiad y cyhoedd. Ategir at y tasglu gan Grŵp Aur ar drais yn erbyn menywod a merched, a chamddefnyddio ymddiriedaeth. Mae fy nirprwy a phrif weithredwr yn mynychu. Mae pob swyddog ac aelod staff yn Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn derbyn gohebiaeth wyneb yn wyneb am gamddefnyddio ymddiriedaeth a chodau ymarfer i gadarnhau hyn. Cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabl aeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi adroddiad yn canmol heddluoedd y DU am gymryd mesurau rhagweithiol i blismona cam-drin domestig yn ystod y pandemig. Rhaid i mi ganmol Heddlu Gwent a'n partneriaid am eu hymdrechion yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gwnaethom weithio'n helaeth gyda Heddlu Gwent a'r tîm VAWDASV rhanbarthol i annog pobl sy'n dioddef camdriniaeth i roi gwybod i ni.

Gwasanaeth cyflawnwyr cam-drin domestig

Eleni penderfynais ymestyn y cyllid a ddarperir i wasanaeth Phoenix Domestic Abuse i gynnal rhaglen beilot i bobl sy'n cyflawni cam-drin domestig gan fod y gwaith o'i sefydlu yn y lle cyntaf wedi cael ei rwystro gan y pandemig. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gyda thramgwyddwyr trwy roi sylw i agweddau ac ymddygiad camdriniol a'u herio nhw. Maent yn gwbl ardystiedig ac mae gwiriadau diogelu ar waith. Mae gwaith gyda thramgwyddwyr yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig gan ei fod yn ein galluogi ni i dargedu gwraidd y broblem. Mae hefyd yn lleihau'r perygl o ail droseddu a, thrwy hynny, o ail erledigaeth. Bydd yr hyn a ddysgir gan y gwasanaeth peilot hwn yn llywio gofynion comisiynu ar gyfer unrhyw wasanaeth tramgwyddwyr cam-drin domestig yn y dyfodol ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r gofynion hynny.

Y Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Prif Gwnstabl Pam Kelly a minnau â bwrdd Y Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru. Rwyf yn dod â phrofiad a gwybodaeth helaeth i'r rôl hon, ac rwyf hefyd yn gweithredu fel dirprwy arweinydd grŵp portffolio Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ar dechnoleg a digidol yr heddlu, a grŵp portffolio'r Gymdeithas ar ddulliau galluogi busnes. Rwyf hefyd yn arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig â seiber ar gyfer y pedwar comisiynydd heddlu a throsedd yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod seiberdrosedd yn esblygu trwy'r amser, felly mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio gwaith partner a dull cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon. Trwy ymuno â bwrdd Y Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru, rwyf yn hyderus y gallaf helpu i sicrhau bod plismona a phartneriaid yn sefyll yn gadarn yn erbyn seiberdroseddwyd ac yn cadw ein cymunedau a busnesau'n ddiogel.

Sgamiau

Mae sgamwyr yn dod o hyd i ffyrdd i dwyllo pobl a dwyn eu harian ac asedau, boed hynny trwy'r post, ar stepen y drws, trwy gyfrwng y rhyngwrwyd neu ar y ffôn. Yn ystod y pandemig, bu cynnydd mewn twyll ar-lein ledled y wlad. I helpu i fynd i'r afael â hyn, gwnaethom hyrwyddo gwybodaeth yn rheolaidd i wneud pobl yn ymwybodol o sgamiau ac yn eu hannog nhw i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig, gwnaethom ganolbwyntio ar gyhoeddi negeseuon gwrth-dwyll gan dynnu sylw penodol at ddydd Gwener Gwario a dydd Llun Seiber. Gan ein bod yn gwneud llawer o waith ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr adeg hon, roeddwn i a'r tîm yn gallu pwysleisio'r negeseuon hyn yn ein digwyddiadau wyneb yn wyneb, gan roi gwybodaeth i drigolion ynghylch sut i gadw'n ddiogel ar-lein, gan weithio ar y cyd gyda Swyddog Seiberddiogelwch Heddlu Gwent mewn digwyddiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom siarad wyneb yn wyneb â mwy na 1,200 o bobl am y problemau hyn. Gwnaethom gefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel trwy roi cyngor atal trosedd ar draws ein sianeli cyfathrebu. Buom yn trafod y diwrnod gyda thrigolion mewn digwyddiadau ymgysylltu yn ystod yr wythnos, ac yn annog partneriaid sy'n gweithio gyda phobl ifanc i bwysleisio pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein. Cafodd gwaith tebyg ei wneud am dwyll rhamant ar Ddydd Sant Ffolant a hyfforddiant ymwybyddiaeth o sgamiau ar gyfer pobl 50+.

Gwent SOS

Mae troseddau cyfundrefnol difrifol, trais difrifol a cham-fanteisio'n droseddol ar blant i gyd yn faterion pwysig, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd newydd. Mae St Giles Trust yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael rhywun yn cam-fanteisio arnyn nhw a/neu sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol difrifol a thrais. Mae gan weithwyr St Giles Trust brofiad bywyd ac maent yn gallu ymgysylltu â'r plant a phobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Eleni, darparodd St Giles Trust 195 ymyrraeth i blant a phobl ifanc y mae'n hysbys eu bod yn ymwneud â throseddau cyfundrefnol difrifol a/neu yn dioddef cam-fanteisio. Mae lleihau achosion o blant yn dioddef cam-fanteisio troseddol a rhywiol eilwaith yn un o brif ymrwymadau fy mlaenoriaeth Brwydro yn erbyn Troseddau Difrifol, felly rwyf yn falch bod gennym ni wasanaeth sy'n gweithio gyda'r garfan agored i niwed hon.

Fearless

Ers mis Ionawr 2019, mae tîm Fearless Crimestoppers wedi darparu sesiynau ar droseddau cyllyll, cam-fanteisio ar blant a symud cyffuriau i bron i 14,000 o bobl ifanc yng Ngwent. Caiff sesiynau eu cynllunio i roi'r addysg a'r hyder i bobl ifanc adnabod y problemau hyn ymysg eu grwpiau o ffrindiau a chymunedau, a hefyd i roi'r wybodaeth a'r hyder iddyn nhw eu riportio. Maen nhw wedi darparu hyfforddiant i dros 230 o weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalcwyr ar sut i adnabod arwyddion troseddau cyfundrefnol hefyd.

Deall y Sbardunau

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Deall y Sbardunau, mae fy swyddfa wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i sefydlu cynllun peilot i brofi argymhellion yr adroddiad. Mae'r cynllun peilot sydd yn ardal Llan-wern, Casnewydd, yn rhoi cymorth i blant agored i niwed y credir eu bod mewn perygl o ymwneud â throseddau a cham-fanteisio yn gynnar. Mae cymorth ar gael i'w teuluoedd hefyd. Mae aelodaeth gytûn y peilot yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o wasanaethau gyda gwahanol arbenigedd. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth troseddau ieuenctid, staff addysgol, gweithwyr proffesiynol yn y maes ieuchyd meddwl, yr heddlu a gweithwyr ieuenctid y trydydd sector fel Dyfodol Cadarnhaol. Mae cynnydd addawol wedi cael ei wneud gyda rhai o'r atgyfeiriadau, gydag arwyddion eu bod yn llesol i'r plant. Fodd bynnag, o ystyried bod y rhain yn blant a theuluoedd ag anghenion cymhleth a phrofiadau trawmatig, rydym yn disgwyl heriau ac yn rhagweld y bydd rhai yn cymryd hwy nac eraill i weld newid cadarnhaol. Mae'r peilot yn seiliedig ar y syniad o addasu i anghenion plant a theuluoedd yn ogystal â bod yn ystyriol o drawma. Mae hyn yn golygu nad ydym eisiau troseddoli na rhoi pwyslais ar yr agweddau negyddol yn eu bywydau. Gan hynny, byddwn yn ymateb i unrhyw heriau sy'n codi (fel plentyn yn cael ei eithrio) trwy sefydlogi'r sefyllfa ac yna gweithio gyda'r plentyn/teulu i roi sylw i'r problemau sylfaenol a allai fod wedi arwain at y digwyddiad. Bydd y peilot yn cael ei werthuso yn defnyddio canlyniadau a mesurau diffiniedig i sefydlu sail tystiolaeth gadarn i asesu'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y gellir ei wella. Bydd yr adroddiad arfarnu'n cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru. Nid yw'r gwerthusiad terfynol yn debygol o fod am flwyddyn arall gan y bydd

y peilot yn rhoi cymorth i blant sydd ym mlwyddyn chwech ar hyn o bryd at ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2023).

RHOI CYMORTH I DDIODDEFWYR AC AMDDIFFYN POBL AGORED I NIWED

Darparu cymorth o ansawdd da i ddioddefwyr trosedd ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed rhag niwed.

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf yn cymryd fy rôl fel eiriolwr dioddefwyr o ddifrif. Gall dioddef trosedd gael effaith ddinistriol ar fywyd rhywun ac mae'n hanfodol bod Heddlu Gwent, y gwasanaethau cymorth rwyf yn eu hariannu, a'n partneriaid yn parhau i wella'r ffordd rydym yn ymateb i ddioddefwyr. Ers i'r Uned Gofal Dioddefwyr (yr Uned), sy'n cael ei ariannu gen i, gael ei sefydlu'r llynedd, mae adroddiadau cynnar yn dangos bod cyfraddau boddhad dioddefwyr wedi cynyddu.

Mesur boddhad dioddefwyr	Llinell sylfaen	Ers sefydlu'r Uned (Rhagfyr 21)	Mawrth 2022
Bodlon ar y ffordd maent wedi cael eu trin gan y swyddog	85%	81%	94%
Bodlon ar y ffordd maent wedi cael eu trin gan y Swyddog Gofal Dioddefwr (yn yr Uned)	85%	100%	100%
Bodlon ar y ffordd mae gwybodaeth wedi cael ei rhannu gyda nhw	74%	85%	92%
Bodlon ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd	75%	81%	81%

O ran troseddau a digwyddiadau seiliedig ar 'fregusrwydd' y mae'n rhaid i'r heddlu eu rheoli, mae'r pandemig wedi cael effaith parhaol. Cafwyd cynnydd cyson mewn achosion o ymateb i ddigwyddiadau 'oedolyn mewn perygl'. Mae achosion o droseddau casineb wedi codi hefyd ond maent yn dangos arwyddion eu bod yn gostwng yn awr. Mae nifer y dioddefwyr sy'n dioddef eto wedi parhau yn gymharol uchel. O ran plant, yn ystod y pandemig gostyngodd niferoedd y plant ar goll ac ymyraethau diogelu yn sylweddol, a oedd yn ddealladwy gan fod y rhan fwyaf o blant adref. Fodd bynnag, mae digwyddiadau wedi dechrau cynyddu eto i lefelau cyn y pandemig a thu hwnt, sydd yn achos pryder. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelu i sicrhau ein bod yn rhoi'r ymyraethau priodol ar waith, yn arbennig wrth i'r argyfwng costau byw waethygu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd bod gwasanaethau ieuencid effeithiol ar waith ledled Gwent, yr wyf yn ariannu rhai ohonynt, i gynnig y cymorth cofleidiol a'r gofal sydd ei angen ar bobl ifanc bregus. Byddaf yn defnyddio'r flaenoriaeth hon i barhau i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau ledled Gwent gyfan yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Deddf Cam-drin Domestig 2021

Cefnogais y diwygiadau arfaethedig i'r Bil Cam-drin Domestig gan Lywodraeth y DU a fyddai'n dileu'r rhagdybiaeth bod cyswllt parhaus gyda rhiant camdriniol er budd pennaf y plentyn. Byddai hefyd yn gwahardd cyswllt heb oruchwyliaeth i riant sy'n aros am achos llys neu ar fechnïaeth am droseddau cam-drin domestig, neu lle mae achos llys am gam-drin domestig yn mynd rhagddo. Roedd y ddeddfwriaeth flaenorol yn aml yn trin cam-drin domestig yn y cartref fel mater ar wahân i ddiogelwch a lles plentyn. Rydym yn gwybod bod tyfu i fyny mewn cartref lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn gallu niweidio iechyd meddwl plentyn yn ddifrifol ac, mewn rhai achosion, yn gallu gwneud plentyn yn fwy tebygol o ddechrau ymwneud â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Bil, sydd yn gyfraith yn awr, hefyd yn amddiffyn goroeswyr, a oedd yn aml yn gorfod cadw cysylltiad â'u camdriniwr er mwyn hwyluso cyswllt y camdriniwr gyda'u plentyn.

Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gam-drin Pobl Hŷn

Nod Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gam-drin Pobl Hŷn y Byd yw mynd i'r afael â chamdriniaeth gorfforol, emosiynol, ac ariannol o bobl hŷn. Gwnaethom greu pecyn cymorth i bartneriaid i helpu pobl i ddeall arwyddion camdriniaeth. Anfonwyd y pecyn at awdurdodau lleol, fferyllfeydd, darparwyr gofal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sefydliadau gwirfoddol, cymdeithasau tai, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, aelodau etholedig lleol, cynghorwyr cymuned, Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Senedd San Steffan ac Age Cymru. Rhannwyd graffeg a gwybodaeth i dynnu sylw at y gwahanol ffurfiau ar gamdriniaeth ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom drefnu a chynnal gweminar i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y rheng flaen gyda phobl hŷn yng Ngwent. Ymunodd pobl o amrywiaeth eang o sectorau, gan gynnwys iechyd, plismona, y sector gofal a chymdeithasau tai lleol yn y sesiwn. Roedd 106 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad rhithiol, a oedd yn cynnwys sgysiau am arfer gorau gan Fwrdd Diogelu Gwent, Hourglass Cymru, Re:Cognition, a Heddlu Gwent. Roedd y sesiwn yn gyfle i weithwyr proffesiynol fyfyrion ar arferion cyfoes. Roedd sylwadau pobl am y digwyddiad yn gadarnhaol iawn. Ar y cyfan, roedd 100% o'r rhai oedd yn bresennol yn fodlon iawn neu'n fodlon gyda'r digwyddiad, roedd 100% yn teimlo bod y cyflwynwyr a'r digwyddiad cyffredinol yn dda iawn neu'n dda, a dywedodd 100% y byddent yn mynd i ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Trosedd casineb

Mae fy swyddfa wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp cyfeillgarwch anabledd lleol My Mates ac yn siarad gyda nhw am eu dealltwriaeth a'u profiadau o drosedd casineb. Cyfrannodd y grŵp at weithdy gyda fy swyddfa, Heddlu Gwent a Mencap Cymru i drafod yr effaith mae trosedd casineb wedi ei gael ar eu bywydau. Gwnaethant gynnig sylwadau ar ddeunyddiau 'hawdd eu darllen' hefyd sy'n cael eu creu i helpu pobl gydag anableddau i ddeall sut i riportio digwyddiad a cheisio cefnogaeth. Aeth fy swyddfa a minnau i ymweld ag Ysgol Lewis Pengam, a oedd yn darparu gwersi â themâu i geisio deall problemau fel hiliaeth, problemau anabledd a homoffobia. Mae deall materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth yn hanfodol i bobl ifanc a fydd yn byw ac yn gweithio yn ein cymunedau yn y dyfodol.

Mae Heddlu Gwent wedi cael cydnabyddiaeth ar ffurf achrediad oddi wrth Cymorth i Ddioddefwyr am gymryd camau i wella ei ymateb a'i gefnogaeth i bobl sydd wedi dioddef a bod yn dyst i drosedd casineb. Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi canmol gwaith lleol ar drosedd casineb o'r blaen, ac mae'r gydnabyddiaeth ddiweddaraf yn dangos ein bod yn parhau i weithio'n galed i wella gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr y drosedd erchyll hon.

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol

Comisiynodd comisiynwyr yr heddlu a throedd Dyfed Powys a De Cymru a minnau adolygiad o ddarpariaeth cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol ledled de, canol a gorllewin Cymru. Roedd yr adolygiad yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol ac yn darparu dadansoddiad o angen er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaethau, trwy ddatblygu model a manylebau gwasanaeth cyson, wedi'u cyllidebu ar gyfer y rhanbarthau. Cwblhawyd yr adroddiad terfynol ar ddiwedd 2021 ac mae tîm prosiect a strwythur llywodraethu wedi cael ei sefydlu i gyflawni yn unol â'r canfyddiadau.

Cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn ogystal â chyfraniad cyllid blynyddol o £679,145 i'r Gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, y gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Darpariaeth Cwnsela Trais Rhywiol yng Ngwent, llwyddais i sicrhau £644,446 o gyllid y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn darparu pedwar cynghorydd trais rhywiol annibynnol a phedwar cynghorydd trais domestig annibynnol i weithio ledled Gwent am ddwy flynedd. Rwyf wedi ymroi i roi cymorth i ddioddefwyr trosedd, yn arbennig y rheini sydd wedi profi'r niwed mwyaf difrifol, a bydd y cyllid hwn yn caniatáu i ni ehangu'r gwasanaethau cymorth hyn. Roedd hyn yn ychwanegol at £139,000 o gyllid y Weinyddiaeth Cyfiawnder y cytunwyd arno'n gynharach yn ystod y flwyddyn i gefnogi prosiectau sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol

Uned Gofal Dioddefwyr

Lansiodd Heddlu Gwent uned gofal dioddefwyr newydd sy'n bwynt cyswllt canolog ar gyfer dioddefwyr o'r adeg pan fyddant yn rhoi gwybod am drosedd hyd at ddiwedd y broses cyfiawnder troseddol. Mae'r uned yn cyd-fynd â Connect Gwent, y ganolfan gyntaf i ddioddefwyr yng Nghymru. Mae'r uned newydd yn cynnwys tîm o 19 o swyddogion cymorth dioddefwyr yn gweithio'n agos gyda swyddogion heddlu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hymchwiliad. Maent hefyd yn sicrhau bod dioddefwyr yn gwybod beth yw eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr ac yn gweithio gyda chydlynnydd ymgysylltu â goroeswyr Gwent i hysbysu Heddlu Gwent am faterion allweddol. Trwy ddarparu'r gefnogaeth bwrpasol hon i ddioddefwyr rwyf yn gobeithio y gallwn feithrin eu hyder yn y system cyfiawnder troseddol a'u helpu nhw i ymadfer ar ôl eu profiad. Ers i'r uned agor, mae dros 44,000 o ddioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, cysylltwyd â bron i 7,000 yn llwyddiannus a chynhaliwyd 6,000 asesiad o angen i benderfynu pa gymorth oedd ei angen arnynt. Er bod y tîm yn newydd o hyd, mae cyflwyno'r uned

wedi gwella cyfraddau boddhad dioddefwyr, nid yn unig o ran y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan swyddogion gofal dioddefwyr, ond eu profiad cyffredinol gyda'r heddlu. Byddaf i a'm dirprwy yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i ysgogi gwelliannau tebyg ar draws y system cyfiawnder troseddol ehangach. Rydym wedi dechrau gwneud hynny'n barod trwy gyflwyno adolygiad amlasiantaeth o achosion trwy'r broses cyfiawnder troseddol gyfan i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr a boddhad dioddefwyr. Mae'r dull arloesol hwn yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru yn awr.

Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent

Ers 2014 mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent wedi buddsoddi'n flynyddol yng Ngwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS). Yn 2021 - 2022 gwnaethom fuddsoddi £828,279 yn y gwasanaeth.

Mae GDAS yn gonsortwm o Kaleidoscope, Barod a G4S sy'n darparu cyngor a chymorth wedi'i dargedu i ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol a allai ymdrin â phobl sy'n dangos bod ganddynt broblemau gyda chyffuriau ac alcohol.

Mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu at drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trwy roi sylw uniongyrchol i gamddefnyddio sylweddau ac, mewn nifer o achosion, gweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd meddwl i ymchwilio i'w hachosion isorweddol, mae pobl sy'n ddibynol ar gyffuriau ac alcohol yn cael cynnig llwybr bywyd gwahanol sydd hefyd yn helpu i atal trosedd mewn cymunedau.

Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25

Ym mis Hydref ymunodd comisiynwyr yr heddlu a throsedd Gwent a De Cymru â Llywodraeth Cymru Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru i gomisiynu dau wasanaeth newydd: Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25, i gefnogi menywod a phobl ifanc a helpu i'w rhwystro nhw rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Maent yn rhoi cymorth wedi'i dargedu ar gyfer problemau fel camddefnyddio alcohol a sylweddau a phroblemau iechyd meddwl wrth helpu i wella cydberthnasau teuluol, torri'r cylch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gwella cydlyniant cymunedol trwy leihau aildroseddu. Mae'r gwasanaethau'n gweithio i ddargyfeirio unigolion oddi wrth drosedd trwy greu rhwydwaith cymorth a'u helpu nhw i fyw bywydau iachach, mwy diogel. Gwnaethom fuddsoddi £488,931.72 yn y gwasanaethau yn 2021 – 2022.

Diwrnod Rhuban Gwyn

Gweithiodd fy swyddfa gyda Heddlu Gwent a thîm rhanbarthol VAWDASV Gwent i wneud pobl yn fwy ymwybodol o Ddiwrnod Rhuban Gwyn ac effaith cam-drin domestig ar blant a theuluoedd. Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol sy'n nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Menywod y Cenhedloedd Unedig. Ar

gyfartaledd, mae 30 o blant a phobl ifanc yng Ngwent yn cael eu heffeithio gan ddigwyddiadau o gam-drin domestig bob dydd. Mae hyn yn seiliedig ar ddigwyddiadau a gafodd eu riportio i Heddlu Gwent. Rydym yn gwybod bod llawer mwy o achosion yn digwydd na'r nifer sy'n cael eu riportio. Crëwyd #Her30 i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r broblem hon. Crëwyd pecyn adnoddau i helpu pobl i gymryd rhan yn y digwyddiad, gan gynnwys graffeg, cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, awgrymiadau ar gyfer heriau a ffyrdd i addo cefnogaeth. Trwy gydol yr wythnos, cefnogodd Cymorth i Fenywod Cyfannol a Heddlu Gwent ein sioe deithiol Rhuban Gwyn a gynhaliwyd ar bum diwrnod olynol ledled Gwent. Cymerodd fwy na 50 sefydliad ran yn yr her a dyma rai o'r uchafbwyntiau:


- 3.2 miliwn argraff ar Twitter gan gyrraedd 1.2 miliwn;
- 605 mensh ar draws yr holl sianeli cyfryngau cymdeithasol;
- sylw yn y South Wales Argus, Free Press a'r Monmouthshire Beacon;
- hyrwyddwyd y cynnwys gan Ddreigiau Gwent;
- cynhaliodd Phoenix Domestic Abuse daith gerdded nodedig 30 awr;
- rhoddodd ysgolion wybodaeth i ddisgyblion am gydberthnasau diogel a gwnaethant annog dosbarthiadau i gymryd rhan mewn heriau chwaraeon yn ystod gwersi ymarfer corff;
- gwisgodd Clwb Rygbi Abertyleri grysau-T Rhuban Gwyn yn ystod sesiynau hyfforddiant ac wrth gynhesu ar gyfer y gêm, yr oeddwn i a swyddogion cymorth cymunedol yn bresennol ynddi; ac
- yn Nhŷ'r Arglwyddi, tynnodd y Farwnes Wilcox sylw at yr ymgyrch a'i negeseuon craidd.

GWELLA HYDER Y GYMUNED MEWN PLISMONA


Gweithio gyda Heddlu Gwent i wella ein cydberthnasau gyda'n cymunedau a gwella hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae'r gwasanaeth heddlu yn plismona drwy gydsyniad. Mae hon yn egwyddor sylfaenol yr ydym yn disgwyl i'n swyddogion a staff heddlu lynu wrthi. Gall sefyllfaoedd gartref a thramor niweidio hyder ac ymddiriedaeth yn yr heddlu ac, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae plismona wedi wynebu heriau sylweddol yn hyn o beth. Mae digwyddiadau fel llofruddiaeth erchyll Sarah Everard yn Llundain a llofruddiaeth ffiaidd George Floyd yn UDA, y ddau ohonynt gan swyddogion heddlu a oedd yn gwasanaethu, wedi cael effaith gronnol yn lleol hefyd. Mae hyn yn arbennig o amlwg ymysg cymunedau sydd eisoes ar yr ymylon, heb gynrychiolaeth ddigonol. Dyma pam y creais y flaenoriaeth benodol hon yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd newydd a byddaf yn parhau i roi sylw dwys iddi yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.

Public Confidence



Mae hyder y cyhoedd yn yr heddlu'n dal yn sefydlog ar 76% o'r rhai a gwblhaodd arolwg, yn groes i dueddiadau yn y DU. Yn benodol, mae hyder wedi gwella yn ddiweddar ymysg menywod a merched ac adroddais yn gynharach am y gwaith mae fy swyddfa a minnau wedi ei wneud gyda VAWDASV. Gellir dweud yr un peth am leiafrifoedd ethnig. Rydym yn dechrau gweld effeithiau hyn gan fod mwy o bobl yn riportio troseddau casineb, ond byddem yn dal i ddisgwyl gweld mwy.



Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Heddlu Gwent 'fwrdd diwylliant' newydd i fonitro hyn, y mae fy swyddfa'n mynychu ei gyfarfodydd. Roeddwn yn croesawu ac yn monitro'r sylw roeddent yn ei roi i stopio a chwilio. Mae gan Went un o'r cyfraddau isaf, os nad yr isaf, o ran anghyfartaledd hil yn y DU ar gyfer stopio a chwilio. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yng Ngwent yw'r rhain. Fy nod yw bod Heddlu Gwent yn dod yn un o'r heddluoedd mwyaf modern, cynhwysol a blaengar yn y DU. Byddai hyn yn golygu ei fod yn deall demograffeg ei boblogaeth, yn cynnig ystod amrywiol o sianeli cyswllt sy'n esblygu'n barhaol, ac yn ymateb yn ardderchog i ddioddefwyr a'r gymuned ehangach, gan dalu sylw i'w hanghenion amrywiol.

Enillwyr gwobrau

Roedd chwech o swyddogion Heddlu Gwent ymysg yr enwebeion a gafodd eu hanrhydeddu yng Ngwobrau Dewrder yr Heddlu 2020 yn Llundain. Cafodd y gwobrau eu gohirio am flwyddyn oherwydd y pandemig. Enwebwyd Rhingyll Heddlu Richard Shapland, Rhingyll Heddlu Sarah Breakspear a Chwnstabliaid Heddlu Lloyd Read, Paul Taylor, Craig Bracegirdle a Peter Whittington am eu dewrder eithriadol yn wynebu dyn a oedd wedi baricedio ei hun yn ei fflat wedi'i arfogi gyda chylllell a gwaywffon. Enillodd Prif Arolygydd Esther McLaughlin sy'n gyfrifol am gadgetiaid yr

heddlu Wobr yr Arglwydd Ferrers, sy'n cydnabod cyfraniadau eithriadol i wirfoddoli mewn plismona. Noddais Wobrau Cymuned a Gwirfoddoli Torfaen eleni, a oedd yn cydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr i gymunedau yn ystod y pandemig. Roeddwn yn falch o noddi'r wobr 'Siwrnai Bersonol', a ddyfarnwyd i Chloe Goddard, gwirfoddolwr ar brosiect rhieni ifanc Cyngor Torfaen. Noddwyd Gwobr Arwr y Gymuned gen i a Heddlu Gwent hefyd yn rhan o Wobrau Pride of Gwent South Wales Argus. Enillydd y wobr oedd Bernard Dawson o Gaerwent, am ddechrau ymgyrch yn y gymuned i roi cymorth i bobl leol a oedd yn gwarchod eu hunain neu'n agored i niwed yn ystod y pandemig.

Ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio gyda'n cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Ngwent i feithrin ymddiriedaeth a gwella cydberthnasau. Ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, hoffwn sicrhau ein cymunedau y bydd unrhyw un sy'n ymwneud â'r heddlu yng Ngwent yn cael ei drin yn gyfartal, yn deg a gyda pharch. Un o'r pethau cadarnhaol yn sgil y pandemig yw ein bod mewn cysylltiad â'n cymunedau yn fwy rheolaidd yn awr. Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd galwadau ffôn cymunedol rhwng yr heddlu, fy swyddfa, partneriaid a'r gymuned. Mae'r rhain wedi arwain at sgysiau hynod o werthfawr, y mae rhai ohonynt wedi bod yn heriol. Cynhaliwyd 22 galwad cymunedol y llynedd.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid yn Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru hefyd i drafod datblygiad ei Gynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi gwaith ymgysylltu gyda thrigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ledled Cymru. Bydd y cynllun yn cael ei lansio yn hwyrach yn 2022.

Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol yn ein gwaith Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn, mewn partneriaeth â Heddlu Gwent. Ei nod yw meithrin gwell cydberthnasau rhwng yr heddlu, plant a phobl ifanc. Aeth fy nhîm i ymweld ag ysgolion a chlybiau ieuenctid i weithio gyda phobl ifanc i greu fersiynau arbennig o'r strategaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, y byddwn yn eu lansio yn hwyrach yn y flwyddyn.

Cyfarfu disgyblion Roma o Ysgol Gynradd Maendy gyda fy nirprwy, Eleri Thomas ac yna Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, i siarad am ddiogelwch cymunedol. Mae'r disgyblion a'u teuluoedd yn cwrdd â'u tîm plismona cymdogaeth yn rheolaidd yn awr ac maent wedi datblygu cynllun 'wynebau diogel' er mwyn dod i adnabod swyddogion lleol. Mae'r gwaith hwn yn meithrin hyder ac ymddiriedaeth, ac yn annog pobl i riportio problemau wrth yr heddlu.

Ffurfiodd disgyblion o Ysgol John Frost yng Nghasnewydd Banel Craffu ieuenctid cyntaf Heddlu Gwent. Mae'r Panel yn cynnwys gwirfoddolwyr o flynyddoedd 10 ac 11 ac mae'n cynnig sylwadau gonest ar berfformiad swyddogion Heddlu Gwent mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r grŵp yn cyfarfod trwy gydol y flwyddyn i graffu ar Heddlu Gwent. Rydyn ni'n gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i greu llwyfan i

alluogi plant a phobl ifanc i leisio barn ar blismona a gwasanaethau cyfiawnder troseddol ehangach hefyd.

Ymgysylltodd fy swyddfa â phobl ifanc ledled Gwent i ddysgu beth sydd o bwys iddyn nhw a defnyddiwyd yr wybodaeth hon i lywio Hawl i Holi Ieuencid eleni. Dywedodd pobl ifanc wrthym ni mai'r materion sydd o bwys iddyn nhw yw iechyd meddwl, cydberthnasau diogel ac iach, a mynd i'r afael â gwahaniaethu a throedd casineb. Cynhaliwyd fy mhedwerydd digwyddiad Hawl i Holi Ieuencid ym mis Mawrth, a rhoddodd lwyfan diogel i bobl ifanc ofyn cwestiynau i bobl sy'n gwneud penderfyniadau a gweithwyr proffesiynol am y materion sydd o bwys iddyn nhw. Roedd mwy na 100 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad rhithiol eleni, a gafodd ei drefnu a'i gynnal mewn partneriaeth â Fforwm Ieuencid Rhanbarthol Gwent.

Daeth cyfraith newydd i ddileu cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru i rym ym mis Mawrth. Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 yn rhoi'r un amddiffyniad i blant rhag ymosodiad ag oedolion. Mae hyn yn golygu bod pob math o gosb gorfforol, fel smacio ac ysgwyd, yn anghyfreithlon yn awr. Gwnaethom helpu i greu cynllun gweithredu ac rwyf yn falch bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar gael gan gynghorau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod rhieni'n cael arweiniad. Nid gwneud rhieni'n droseddwr yw bwriad y gyfraith ac rwyf yn dawl fy meddwl mai dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol y bydd camau troseddol yn cael eu cymryd.

Cohesion Cup

Gwnaethom gefnogi twrnamaint pêl-droed wedi ei drefnu gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST), Heddlu Gwent, Casnewydd Fyw a County in the Community. Y nod oedd chwalu rhwystrau a chryfhau cydberthnasau rhwng cymunedau. Roedd swyddogion, swyddog cymorth cymunedol a staff o Heddlu Gwent a fy swyddfa i yn bresennol mewn cyfres o gemau yng Nghasnewydd. Digwyddodd y twrnamaint dros nifer o benwythnosau, gyda thimau o Gasnewydd yn cynrychioli cymunedau Bangladeshaidd, Ymenaidd, Pwylaidd a Sudaneaidd yn cystadlu. Yna roedd y tîm Bangladeshaidd buddugol yn chwarae yn erbyn tîm Heddlu Gwent a phartneriaid mewn gêm "arch gwpan" derfynol. Roeddwn wrth fy modd i fod yn bresennol yn nifer o'r gemau, a oedd hefyd yn gyfle i ymgysylltu â thrigolion ynghylch y blaenoriaethau arfaethedig yn fy Nghynllun Heddlu a Throedd.

Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol

Mae Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent yn eistedd wrth galon y system cyfiawnder troseddol lleol. Fi sy'n cadeirio'r cyfarfod hwn, sy'n dod ag asiantaethau cyfrifol at ei gilydd i hyrwyddo prosesau cyfiawnder troseddol cydgysylltiedig wrth weithio mewn partneriaeth i ddarparu system cyfiawnder troseddol lleol sy'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol gynllun cyflawni ar waith gyda blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar ddiodefwrwyr a thystion, troseddu, ymyrraeth gynnar ac atal, a chydaddoldeb hil. Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a sut mae plant yn cael eu trin yn y system cyfiawnder ieuencid yn thema gyffredin sy'n gwau trwy bob un o'r blaenoriaethau. Bydd adroddiad canlyniadau ar

gyfer 2021/22 yn cael ei gyhoeddi i ddangos cynnydd cadarnhaol y bwrdd. Mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu rhai cytûn Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i Gymru, partneriaeth rhwng yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Darperir adroddiadau diweddarau gan y Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol i Gymru, yn tynnu sylw at ganlyniadau a pherfformiadau cadarnhaol, ynghyd ag unrhyw heriau ar lefel lleol. Mae fy nirprwy wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i fynd i'r afael ag anghyfartaledd hil yn y system cyfiawnder troseddol. Mae is-grŵp Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent wedi cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun cyflawni a phrif flaenoriaethau. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gydag arweinwyr Llywodraeth Cymru ar bolisi strategol a'i Gynllun Cydraddoldeb Hiliol.

Cronfa Gymunedol yr Uchel Siryf

Mae 15 grŵp ledled Gwent sy'n cynnal prosiectau i helpu i adeiladu cymunedau mwy diogel wedi derbyn cymorth gan Gronfa Gymunedol yr Uchel Siryf. Rhoddais £65,000 i'r gronfa i helpu prosiectau sy'n mentora ac ysbrydoli pobl ifanc. Dyfarnwyd hyd at £5,000 yr un i amrywiaeth o grwpiau.

Calan Gaeaf a Noson Tân Gwylt

Ymunodd fy nhîm â swyddogion cymdogaeth Brynmawr ar gyfer y digwyddiad blynyddol 'Dychryn ar y Sgwâr'. Roedd hwn yn ymgyrch lleol yn annog plant i wisgo i fyny ar noson Calan Gaeaf a mynd o gwmpas y siopau yn y dref yn gofyn am losin neu lanast. Nid yn unig roedd hyn yn rhoi rhywbeth diogel a chadarnhaol iddyn nhw ei wneud ar noson Calan Gaeaf, roedd hefyd yn helpu teuluoedd i ddarganfod rhai o'r busnesau ar gael yn lleol. Gwnaeth tîm Brynmawr waith dychrynlyd o dda yn trawsnewid yr orsaf i ffau anghenfil brawychus, ac roedd yn ffordd gadarnhaol o feithrin cydberthnasau rhwng y gymuned a'r tîm plismona lleol. Rhoddais gyllid i Dyfodol Cadarnhaol a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gweithiodd y ddau sefydliad gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod yn arwain at noson tân gwylt, yn rhan o Ymgyrch Bang. Ymgyrch cenedlaethol yw Ymgyrch Bang i godi ymwybyddiaeth o beryglon tân gwylt a diogelwch tân, a chynhaliwyd gweithgareddau ledled Gwent yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, aeth fy nhîm i sesiwn hyfforddi swyddogion tan i bobl ifanc ym Mlaenau Gwent.

Panel Craffu ar Gyfreithlondeb

Cynhaliwyd pedwar panel craffu ar gyfreithlondeb yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn adolygu digwyddiadau diweddar lle'r oedd swyddogion Heddlu Gwent wedi defnyddio grym. Hapsamplodd y panel ddelweddau camera corff a rhoi adborth ar amseru defnyddio camerâu, yn ogystal ag argymhell hyfforddiant ychwanegol i swyddogion mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol. Cafwyd adborth sylweddol gan aelodau'r Panel hefyd yn pwysleisio gwaith ymgysylltu ardderchog gan swyddogion, yn arbennig wrth ymdrin â phobl agored i niwed.

LHDTQ+

Roedd Mis Hanes LHDT+ yn gyfle i ni fyfyrio ar ba mor bell rydym wedi dod fel cymdeithas, ac i ddathlu'r cyfraniad mae cymunedau LHDT+ yn ei wneud yma yng Ngwent. Mae'r tirlun cymdeithasol wedi newid dros y blynyddoedd, ond mae rhai pobl yn dal i ddioddef camdriniaeth a gwahaniaethu erchyll oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd neu eu rhywioldeb. Mae fy swyddfa'n ariannu Umbrella Cymru, sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth emosiynol ac ymarferol ac yn eiriol dros bobl LHDT+ sydd wedi dioddef trosedd. Ym mis Chwefror, roedd staff o fy swyddfa yn rhan o alwad ffôn cymunedol arbennig a gynhaliwyd gan Heddlu Gwent yn rhan o Fis Hanes LHDTQ+. Rhoddodd hwn gyfle i wahanol sefydliadau lleol rannu manylion yr hyn maen nhw'n ei wneud i gefnogi'r gymuned LHDTQ+ a thynnu sylw at unrhyw heriau maen nhw'n eu hwynebu. Mae Heddlu Gwent yn cefnogi'r gwaith hwn, ac mae ei dîm NXTGen yn hyfforddi cadetiaid i ddod yn llysgenhadon trosedd casineb. Gwnaethom hyrwyddo'r wybodaeth hon ar ein sianeli. Yn ogystal, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â thîm VAWDASV Gwent i ddylunio graffeg i gefnogi Diwrnod Cam-drin Domestig LHDT+.

Ymgyrch Jasmine

Yn dilyn casgliad cwestau'r crwner, roeddwn yn falch i allu ymuno â'r Prif Gwnstabl i ganmol swyddogion a staff heddlu a weithiodd ar Ymgyrch Jasmine, ymchwiliad mawr i farwolaethau mewn cartrefi gofal yng Ngwent. Roedd graddfa'r ymchwiliad hwn, a ddechreuodd yn 2005, yn anferth ac arweiniodd at adolygiad annibynnol o'r sector gofal yng Nghymru. Dylai pawb a weithiodd ar yr achos hwn fod yn eithriadol o falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni, ac rwy'n gwybod bod teuluoedd y preswylwyr yn y cartrefi yn gwerthfawrogi ymdrechion yr heddlu trwy gydol yr ymchwiliad hir a chymhleth hwn.

Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys

Gwnaethom gynnal pedwar panel i graffu ar warediadau y tu allan i'r llys yn ystod y flwyddyn. Adolygwyd 80 o ddigwyddiadau wedi'u dewis ar hap lle cyhoeddwyd gwarediadau y tu allan i'r llys gan y panel amlasiantaeth sy'n cael ei gadeirio gan fy swyddfa. Asesodd y panel addasrwydd a phriodoldeb y gwarediad a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd y dylid hysbysu Heddlu Gwent amdanynt. Fel arfer, ystyriwyd bod y mwyafrif helaeth o'r gwarediadau yn briodol, a dim ond nifer fach o achosion oedd yn destun sylw lle y gallai gwarediad yn y llys neu ddim o gwbl fod wedi bod yn fwy priodol. Mae natur oddrychol gwarediadau y tu allan i'r llys bob tro'n arwain at drafodaeth ddiddorol ac yn tynnu sylw at y penderfyniadau anodd mae swyddogion yn gorfod eu gwneud wrth benderfynu ar y camau mwyaf priodol ar gyfer y dioddefwr a'r troseddwr.

Gwobr Stephen Lawrence

Cyfrannodd comisiynwyr yr heddlu a throedd eraill a minnau at wobwr Fulbright newydd wedi ei hanelu at ymchwil pellach i blismona a chyfiawnder troseddol. Bydd Gwobr Ysgolhaig mewn Plismona Fulbright-Stephen Lawrence yn galluogi swyddog neu aelod o staff heddlu yn y DU i astudio ar raglen ymchwil am dri mis a gynhelir

gan dri o'r grŵp Colegau a Phrifysgolion Du yn UDA. Roedd marwolaeth Stephen yn 1993 yn gatalydd a ddatgelodd hiliaeth, rhywiaeth a homoffobia sefydliadol ledled ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi dod yn bell ers hynny, ond gwyddom fod gennym ni fwy o waith i'w wneud. Bydd y wobr hon yn galluogi'r DU ac UDA i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gwella ein gwasanaeth i drigolion.

Gwobr Tryloywder

Mae fy swyddfa wedi derbyn y Marc Ansawdd 'Agored a Thryloyw' am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae'r wobr yn cael ei dyfarnu gan Comparing Police and Crime Commissioners, corff cenedlaethol annibynnol sy'n monitro gwaith llywodraethu'r heddlu. Mae'n dangos ein bod yn cynnal busnes yn agored ac yn dryloyw, a bod gwybodaeth allweddol ar gael i drigolion mewn ffordd hygyrch.

Gwirfoddolwyr

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn ein helpu ni i sicrhau bod yr amodau llym yn nalfeydd Heddlu Gwent yn cael eu bodloni a bod lles y bobl sy'n cael eu dal ynddynt yn cael ei warchod. Yn ystod y flwyddyn cawsom naw gwirfoddolwr a wnaeth 36 ymweliad a 24 galwad ffôn i ddalfeydd. Codwyd 92 o broblemau mân yn ystod y flwyddyn, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â phobl yn y ddalfa'n gofyn am ddŵr neu fwyd, i weld y nyrs neu aelodau teulu, neu i gysylltu â chyfreithiwr. Rhoddodd y swyddogion ar ddyletswydd yn y ddalfa sylw i'r problemau a godwyd ar unwaith. Atgyfeiriwyd 13 o broblemau at Swyddfa'r Comisiynydd, yn ymwneud â lefelau staff isel, yn bennaf oherwydd effaith Covid 19 a newid strwythur, fodd bynnag, mae lefelau staffio wedi cael sylw ers hynny. Parhaodd rheolwr y cynllun i ddarparu hyfforddiant Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i staff y ddalfa Heddlu Gwent, a chynhaliwyd paneli Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar-lein bob tri mis yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaethom recriwtio pedwar Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd newydd hefyd.

Mae ein Hymwelwyr Lles Anifeiliaid yn chwarae rhan hollbwysig yn sicrhau bod cŵn Heddlu Gwent yn cael eu trin yn dda a bod y safonau uchaf yn cael eu bodloni o ran lles anifeiliaid. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom recriwtio 12 gwirfoddolwr newydd gan ddod â'r nifer i 17. Gwnaethant ymweld â chŵn Heddlu Gwent naw gwaith yn ystod y flwyddyn, a chofnodwyd a rhannwyd canlyniadau'r ymweliadau gyda Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. Ni chafodd unrhyw faterion o bryder mawr eu hadrodd.



YSGOGI PLISMONA CYNALIADWY

Darparu gwasanaeth heddlu sy'n cynnig gwerth am arian ac yn gweithredu'n gyfrifol, gyda seilwaith cynaliadwy sy'n cefnogi gofynion cyfredol a rhai'r dyfodol.

Rwyf am i'm swyddfa a Heddlu Gwent fod yn wasanaethau modern, sy'n rhannu diwylliant o gynaliadwyedd. Mae hyn yn golygu bod angen pobl, strwythurau, cyllid, technoleg, fflyd ac adeiladau iach, hyblyg a gwydn arnom ni. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gyflwynais pan oeddwn yn Llywodraeth

Cymru, yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y flaenoriaeth hon, er gwaethaf y ffaith nad yw plismona wedi datganoli o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi monitro cyfran Heddlu Gwent o Ymgyrch Uplift, ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynyddu niferoedd swyddogion heddlu gan 20,000 yn ofalus. Rwyf yn falch ein bod ni o'r diwedd wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau swyddogion heddlu a welwyd cyn y cyni.

Dim ond un rhan o wasanaeth cynaliadwy yw niferoedd swyddogion a staff. Mae iechyd a lles pob unigolyn hyd yn oed yn bwysicach. Mae gan swyddogion a staff Heddlu Gwent le i fod yn falch o'r ffordd y gwnaethant gynnal lefelau gwasanaeth yn ystod y pandemig, 24 awr y dydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd mewn absenoldeb salwch, o ganlyniad i Covid 19 ei hun ac o ganlyniad i flinder o ganlyniad i'r straen digynsail yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Croesewais y ffaith fod Heddlu Gwent yn cyflwyno strategaeth lles newydd y llynedd, sy'n dechrau cael effaith yn awr. Rwyf hefyd wedi ceisio cael sicrwydd bod y strategaeth yn addas i'r diben, yn arbennig o ystyried yr argyfwng costau byw. Byddaf yn monitro hyn ac yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi lles staff yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae dyletswydd foesol arnom hefyd i feithrin cynaliadwyedd yn y ffordd mae fy swyddfa a Heddlu Gwent yn gweithredu. Mae hyn yn fwy na bod yn sefydliad neu gyflogwr cydwybodol, er bod hynny'n rheswm pwysig. Mae hyn hefyd yn ymwneud â

beth gallwn ni ei wneud i gyfyngu effeithiau newid hinsawdd ac arferion anghynnaladwy ar gymunedau Gwent, a fydd yn ddiamheuol yn creu mwy o alw ar yr heddlu. Mae hyn yn digwydd eisoes, felly datblygwyd strategaeth 'Gwent wyrddach' rhwng Heddlu Gwent a fy swyddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y targed ar gyfer y strategaeth fydd allyriadau carbon sero net erbyn 2030, ynghyd â gostyngiad mewn gwastraff, cynnydd mewn teithio cynaliadwy, adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni, dwyn gwerth cymdeithasol i mewn i gaffael a chontractau, datblygu diwylliant o gynaliadwyedd ledled y gweithlu, a gwella iechyd a lles ein staff. Mae angen lleihad 11% o un flwyddyn i'r llall yn ein hallyriadau carbon i gyrraedd sero net erbyn 2030 o'n hallyriadau cyfrifedig presennol o 24,000 tonnall. Rydym wedi dechrau gwneud cynnydd yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda cherbydau trydan newydd yn y fflyd, ac rwyf wedi buddsoddi £250,000 i ddatblygu seilwaith gwefru ceir trydan yng Ngwent. Rydym wedi newid tariffau ynni i 100% trydan adnewyddadwy, ac nid oes gennym ni unrhyw wastraff yn mynd i dirlenwi yn awr. Mae ein pencadlys newydd yn un o'r adeiladau mwyaf effeithlon o ran ynni yng Ngwent. Mae'r polisi gweithio hyblyg newydd ar gyfer staff perthnasol wedi cael ei gyflwyno, gan fanteisio ar dechnoleg ac arferion a sefydlwyd yn ystod y pandemig i leihau teithio diangen. Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd mwy arloesol i fynd ymhellach er mwy cyflawni'r goliau hyn.

Gorsaf Heddlu Y Fenni

Gwnaethom ganfod plot o dir addas yn Llan-ffwyst ac rydym yn ceisio caniatâd cynllunio am orsaf heddlu wedi'i hadeiladu i bwrpas yn Y Fenni. Bydd hon yn creu cartref hirdymor ar gyfer timau plismona cymdogaeth a thimau ymateb yr ardal. Mae llawer o amser ac ymdrech wedi cael eu buddsoddi yn y prosiect hwn ac rwyf yn falch ein bod, o'r diwedd, yn gallu cyflawni yn unol â'n hymrwymiad i gael lleoliad parhaol i Heddlu Gwent yn Y Fenni. Rwyf yn ddiolchgar i drigolion lleol a'n timau plismona am weithio gyda ni wrth i ni ddod o hyd i'r datrysiad cywir ar gyfer y dyfodol.

Prentisiaethau

Mae Heddlu Gwent a fy swyddfa wedi cyflogi 15 o brentisiaid newydd (gan gynnwys prentis cyllid sector cyhoeddus Cymru gyfan) a dechreuodd y rhain eu gwaith ym mis Medi. Mae rolau'r prentisiaid yn amrywio, mae 14 ohonynt yn seiliedig yn yr heddlu ac un yn fy swyddfa i (prentis cyfryngau digidol). Mae'r rolau'n ymwneud â meysydd fel dysgu a datblygu, gweinyddu busnes a TG. Gall prentisiaethau gynnig llwybrau a chyfleoedd i bobl a allai deimlo eu bod wedi eu heithrio o gymwysterau lefel uwch fel arall. Rwyf yn edrych ymlaen at weld y cynnydd yn eu gwaith dros y flwyddyn nesaf.

MeUs

Ymunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Heddlu Gwent i lansio rhaglen arweinyddiaeth ar y cyd arloesol gyda'r nod o ddatblygu cenhedlaeth newydd o arweinyddion beiddgar ac arloesol i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ledled Gwent. Lansiwyd yr ymgyrch (MeUs) ym mis Gorffennaf gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Rydym am sicrhau bod gan uwch reolwyr y lefelau uchaf o sgiliau a chymwyseddau. Lluniodd wyth o weithwyr ar draws y ddau sefydliad y

garfan gyntaf erioed - pedwar o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a phedwar o Heddlu Gwent.

Adolygiad o Swyddogaeth Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU argymhellion ei adolygiad o gomisiynwyr yr heddlu a throsedd. Mae comisiynwyr yr heddlu a throsedd yn cael eu hethol i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus felly mae'n iawn bod eu swyddogaeth yn cael ei hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli'r dull gorau o wneud plismona'n atebol i'r cyhoedd. Mae'r adolygiad yn gofyn bod swyddfeydd comisiynwyr yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn blaenoriaethau plismona cenedlaethol y llywodraeth, adroddiadau perfformiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar berfformiad yr heddlu, ac ymdrin â chwynion. Mae'r blaenoriaethau plismona cenedlaethol yn cael eu nodi yn y Mesurau Heddlu a Throsedd: lleihau llofruddiaeth a dynladdiad; lleihau trais difrifol; tarfu ar gyflenwi cyffuriau a llinellau cyffuriau; lleihau trosedd yn y gymdogaeth; mynd i'r afael â seiberdroseddau; a gwella boddhad ymysg dioddefwyr gan ganolbwyntio'n benodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r rhain yn cyd-fynd â fy mlaenoriaethau lleol fel yr amlinellir yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Pencadlys yr Heddlu

Gwnaethom ddechrau symud i mewn i'n pencadlys newydd 5,178 metr sgwâr yn Llantarnam ym mis Ionawr 2022. Mae lle i 480 o swyddogion a staff heddlu ynddo, ac mae'n gartref i'r ystafell reoli, sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer galwadau 999 i'r heddlu, timau troseddau mawr, swyddogaethau hyfforddi, gwasanaethau cefnogi ac uwch reolwyr. Mae'r hen bencadlys yng Nghroesyceiliog bron yn 50 mlwydd oed ac mae angen buddsoddiad sylweddol arno. Aseswyd yr holl bosibiliadau ymarferol mewn cysylltiad ag aros ar y safle presennol, ynghyd â phrynu adeiladau presennol, ond adeiladu pencadlys newydd yn Llantarnam oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian. Cost yr adeilad oedd £32miliwn ac o ganlyniad i gynllunio ariannol gofalus dros lawer o flynyddoedd talwyd amdano o gronfa wrth gefn benodol. Amcangyfrifir bod costau cynnal blynyddol y pencadlys newydd £1.1miliwn yn llai'r flwyddyn na chostau cynnal yr hen bencadlys a safleoedd cysylltiedig. Mae'r pencadlys newydd yn rhan o'r cam cyntaf yn ein strategaeth ystâd bresennol i wella cyfleusterau'r heddlu yng Ngwent. Mae'r Prif Gwnstabl a mi'n adolygu'r strategaeth hon ar hyn o bryd i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth plismona modern ac effeithiol sy'n defnyddio technoleg newydd ac arferion gweithio cyfredol i amddiffyn a thawelu meddwl y cyhoedd.

Recriwtio

Rydym wedi recriwtio 178 swyddog heddlu newydd a 54 swyddog cymorth cymunedol newydd i Heddlu Gwent yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dod â chyfanswm ein sefydliad i 1,423, ac mae 83 o swyddogion eraill i fod i gael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu bod 270 mwy o swyddi newydd wedi cael eu creu ar gyfer swyddogion heddlu ers i mi ddod yn Gomisiynydd yn 2016. Mae'r penderfyniad i ddilyn gyrfa fel swyddog heddlu rheng flaen yn un dewr, yn arbennig yn awr yng nghanol pandemig byd-eang sydd wedi rhoi pwysau

digynsail ar luoedd heddlu. Mae'r swyddogion hyn yn ychwanegiad y mae angen taer amdano ar adeg dyngedfennol a dymunaf bob hwyl iddynt yn eu gyrfa.

CRONFA GYMUNEDOL YR HEDDLU

Bob blwyddyn, gall sefydliadau yng Ngwent wneud cais am gyfran o £300,000 ar gyfer prosiectau sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan drosedd. Mae'r gronfa ar agor i sefydliadau dielw sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sy'n ymwneud, neu mewn perygl o ddechrau ymwneud, â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu sydd wedi dioddef trosedd. Mae cyfran o'r arian yn y gronfa wedi cael ei atafaelu gan droseddwyr, a gall sefydliadau wneud cais am symiau o £10,000 i £50,000. Yn aml, plant a phobl ifanc yw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac mae hyn yn gallu golygu eu bod nhw mewn perygl o ddechrau ymwneud â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trwy gefnogi sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau cadarnhaol a dargyfeiriol i bobl ifanc, gan eu helpu nhw i ddatblygu eu hyder, sgiliau a dysgu, rydym yn eu helpu nhw i wireddu eu gwir botensial a chreu cymunedau mwy diogel a chydlynus. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cymorth i'r prosiectau canlynol:

Sefydliad	Ardal	Enw'r Prosiect	Swm
Cymru Creations	Blaenau Gwent	Academi Ffilm Blaenau Gwent. Creu ffilmiau'n seiliedig ar brofiadau cyfranogwyr am bynciau fel gyrru peryglus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd casineb.	£25,000
Canolfan Galw Heibio Pobl Ifanc Senghennydd	Caerffili	Gweithgareddau dargyfeiriol i bobl ifanc i geisio lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.	£31,314.49
KidCare4U	Casnewydd	Prosiect Saturday Kids Club i deuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Darparu gofal plant ar benwythnos ym Mhilogwenlli wrth hyrwyddo integreiddio a lleihau rhwystrau rhwng grwpiau ethnig difreintiedig a chymunedau eraill.	£22,000

Cymorth i Fenywod Cyfannol	Gwent	Gwaith allgymorth dyfal i roi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig 16-24 oed ar bwynt argyfwng.	£27,314.15
Ffin Dance	Blaenau Gwent	Dance and Enhance. Cynnal sesiynau dawn a ffitrwydd i bobl ifanc.	£10,000
Cyswllt Cymunedol Dyffryn	Casnewydd	Gwaith ieuencid datgysylltiedig, ymgysylltu â phobl ifanc a rhoi sylw i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.	£28,028

Dyfarnwyd cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau ail a thrydedd flwyddyn i'r canlynol:

Urban Circle Productions	Casnewydd	Prosiect U-Turn. Defnyddio'r celfyddydau creadigol i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc o gwmpas ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd.	50,000
Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân	Torfaen	Gweithgareddau galw heibio agored i bawb i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Cwmbrân.	40,314.72
The Gap Cymru	Casnewydd	Prosiect Sanctuary. Elusen sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc agored i niwed sydd wedi cyrraedd y DU trwy law masnachwyr, neu wedi cyrraedd yn ceisio lloches, sy'n eu diogelu ac yn eu helpu nhw i gael mynediad at wasanaethau.	16,931

Tŷ Cymunedol	Casnewydd	Prosiect ysgolion ieuenctid Maendy. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn darparu prosiectau addysgol a dargyfeiriol i blant a phobl ifanc, ynghyd ag arian ar gyfer gweithgareddau a chostau cysylltiedig.	48,351
--------------	-----------	--	--------

Mae'r enghreifftiau isod yn rhoi cipolwg ar y gwaith mae'r prosiectau hyn yn ei wneud yn ein cymunedau.

Prosiect Cymunedol Pobl Ifanc Casnewydd

Galluogodd cyllid gan fy swyddfa i'r tîm ym Mhrosiect Cymunedol Pobl Ifanc Casnewydd (Prosiect Ieuenctid Maendy gynt) barhau gwaith ieuenctid datgysylltiedig y mae dirfawr angen amdano, yn ogystal â thalu am deithiau i lefydd fel Aqua Park yng Nghaerdydd ac Enflate Adventure Park yng Nghasnewydd. Cynhaliodd staff sesiynau chwaraeon a chware yn y ddinas hefyd, gan gynnwys prosiect paentio y gellir ei weld ar Corporation Road. Cafodd hwn ei ddylunio a'i beintio gan bobl ifanc oedd eisiau rhannu neges gadarnhaol gyda phobl eraill yn y ddinas.

Cymru Creations

Derbyniodd dwy ffilm fer a grëwyd gan bobl ifanc gyda chefnogaeth fy nghronfa gymunedol wobrau yng Ngŵyl Academi Ffilm Blaenau Gwent. Gweithiodd y bobl ifanc gyda Cymru Creations, cwmni yn Nhredeggar, i greu'r ffilmiau. Roedd y bobl ifanc yn gyfrifol am bob cam o'r broses, o ddatblygu'r storïau, ysgrifennu'r sgriptiau, actio, ffilmio a golygu. Ar ddiwedd y prosiect, gwnaethant dderbyn NVQ lefel un a dau mewn gwneud ffilmiau. Bydd y ffilmiau hefyd yn cystadlu am Wobr Celfyddydau ym Mhrifysgol Trinity Llundain, sy'n cael ei weld fel cymhwyster sy'n cyfateb i TGAU. Mae'r ddwy ffilm i'w gweld ar sianel YouTube Academi Ffilm Blaenau Gwent. Mae Cymru Creations wedi adrodd bod y cyllid gan fy swyddfa wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar les y myfyrwyr oedd yn rhan o'r prosiect ac ar ôl i'r ffilmiau gael eu gorffen, byddant yn cael eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol a'u hanfon at ysgolion lleol.

Ffin Dance

Mae plant a phobl ifanc Abertyleri wedi bod yn mwynhau bod yn greadigol mewn gweithdai dawns galw heibio sy'n cael eu hariannu gan fy nghronfa gymunedol. Ffin Dance, cwmni dawns proffesiynol sydd wedi ei leoli yn Theatr Beaufort, Glynebwy, sy'n cynnal y sesiynau gyda'r nod o roi profiadau cadarnhaol a chreadigol i'r rhai sy'n cymryd rhan er mwyn helpu i'w harwain oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal â chael hwyl gyda'u ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, maen nhw'n dysgu rhywbeth newydd, datblygu eu hyder a gweithio gydag oedolion sy'n esiampl gadarnhaol iddynt. Cyfrannodd y gwaith hwn, ynghyd â

phlisma rhagweithiol a gwaith partner, at leihad mewn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Abertyleri.

KidCare4U

Bu fy nhîm a minnau ar sawl ymweliad â KidCare4U yng Nghanolfan Mileniwm Pilgwenlli i weld sut mae fy nghronfa gymunedol yn cael ei defnyddio i gynnal clwb wythnosol ar ddydd Sadwrn i blant lleol. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau sy'n annog pobl ifanc i gadw'n iach, datblygu eu hyder a gwneud ffrindiau, mae'r clwb yn darparu cymorth addysg ychwanegol i'r rhai sydd ei angen hefyd. Mae staff a gwirfoddolwyr yn dod o'r ardal leol. Nid yn unig mae'r prosiect hwn yn cadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd ac yn rhoi rhywbeth cadarnhaol iddyn nhw ei wneud, bydd y cymorth ehangach a gynigir i bobl ifanc ym Mhlgwenlli a'u teuluoedd o fudd hirdymor iddyn nhw yn y dyfodol.

Sanctuary

Mae Sanctuary (prosiect sy'n cael ei redeg gan elusen Gap Cymru) a Dyfodol Cadarnhaol wedi bod yn cynnal gemau pêl-droed wythnosol i ffoaduriaid ifanc yn y ddinas. Mae'r ddau brosiect yn derbyn cyllid gan fy swyddfa ac mae Casnewydd yn gartref i ryw draean o'r bobl ifanc ar eu pennau eu hunain yng Nghymru sy'n ceisio lloches. Dyma rai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, llawer ohonynt wedi dianc o wledydd wedi'u rhwygo gan ryfel, neu wedi cael eu masnachu i'r DU i weithio i gangiau cyffuriau. Trwy gynnig cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau, rydym yn helpu eu lles corfforol a meddyliol. Rydym hefyd yn eu helpu nhw i osgoi ymwneud â throsedd o bosibl ac yn eu helpu nhw i integreiddio gyda thrigolion lleol, gan adeiladu cymuned fwy cydlynol yn y ddinas.

YMGYSYLLTU

Ymgysylltu â'r gymuned

Roeddwn yn hynod o ddiolchgar i gael y cyfle i wasanaethu trigolion Gwent fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am dymor arall ac rwy'n teimlo ei bod yn bwysig mynd allan i'r gymuned a siarad â phobl am yr hyn sydd o bwys iddyn nhw. Bu'n rhaid canslo'r rhan fwyaf o'n sesiynau ymgysylltu mewn cymunedau y llynedd oherwydd y pandemig, er, gwnaeth hynny wella ansawdd ein gwaith ymgysylltu digidol yn sylweddol. Arweiniodd hyn at well prosesau a mwy o waith partner.

Yn ystod y flwyddyn bûm ar grwydr yn Abertyleri, Y Fenni, Bargod, Blaenafon, Brynmawr, Caerffili, Cil-y-coed, Cas-gwent, Cwmbrân, Glynebwy, Sir Fynwy, Casnewydd, Pont-y-pŵl, Rhymni a Thredgar. Yn ystod pob ymweliad, roeddwn yn falch bod masnachwyr a thrigolion lleol yn awyddus i siarad â mi am rai o'r problemau cyfredol yn eu cymunedau. Mae ymgysylltu'n rhan allweddol o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, felly mae'r cyfleoedd hyn i fynd allan a chwrdd â phobl wedi bod yn hynod o werthfawr wrth i mi lywio fy sgysiau gyda'r Prif Gwnstabl.

CYLLID

Cyfrifon wedi'u harchwilio

Cyhoeddwyd y datganiad cyfrifon blyneddol ar gyfer fy swyddfa a Heddlu Gwent cyn y dyddiad cau statudol o 31 Gorffennaf 2022.


Pennu cyllideb

Byddaf yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan Heddlu Gwent er mwyn helpu i sicrhau bod gennym wasanaeth heddlu sy'n rhoi gwerth am arian. Eleni rwyf wedi:

- cytuno ar gyllideb o £156.4 miliwn ar gyfer Heddlu Gwent yn 2022/23 (£8.9miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol);
- pennu cynnydd y dreth gyngor ar 5.5%;
- creu cyllideb gyfalaf o £18 miliwn ar gyfer 2022/23; a
- pharhau i fonitro gwaith gwella gwasanaeth Heddlu Gwent, sydd wedi sicrhau £52.8 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd arian parod ers 2008/09.

Pennu'r gyllideb:

Ar gyfer 2021/22, pennwyd y cyllidebau canlynol ar gyfer gwasanaethau plismona yng Ngwent:



Ar ddiwedd 2021/22, cynhyrchoedd y gwariant cyffredinol ar wasanaethau plismona yng Ngwent warged bach o £4.1 miliwn (2.7%) o'i gymharu â'r gyllideb gyffredinol o £150.9 miliwn.

Hefyd, pennwyd y cyllidebau cyfalaf 2021/22 canlynol yng Ngwent:

- Ystâd - £12.6 miliwn
- Cerbydau - £1.4 miliwn
- Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu - £2.2 miliwn
- Prosiectau digyfalf hrdymor eraill - £2.5 miliwn

Cyfanswm y gwariant cyfalaf cyffredinol ar wasanaethau plismona yng Ngwent ar gyfer 2021/22 oedd £20.6 miliwn yn erbyn y gyllideb gyffredinol ddiwygiedig o £30.7 miliwn.

Sicrhau gwerth am arian:

Rwyf wedi sicrhau bod fy swyddfa i a Heddlu Gwent wedi cyflawni gwerth am arian, gan sicrhau bod gan drigolion wasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon drwy wneud y canlynol:

- Meincnodi costau blynyddol drwy broffiliau gwerth am arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi;
- Derbyn dyfarniad sicrwydd gan archwilyr mewnol bod gennym reolwyr a phrosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol;
- Derbyn datganiad sicrwydd 'boddhaol ar y cyfan' gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer y gwasanaethau TG a ddarperir gan SRS;
- Cyhoeddi fy Natganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n dangos effeithiolrwydd ein llywodraethu; a
- Sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio fy natganiad cyfrifon yn flynyddol.

BODLONI GOFYNION STATUDOL

Fy mhrif gyfrifoldeb yw sicrhau bod gan Went wasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol. Un o'r ffyrdd rwyf yn gwneud hynny yw drwy ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad Heddlu Gwent. Rwyf i a'm swyddfa yn gwneud hyn yn ddyddiol, ac rwyf hefyd yn cynnal Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad chwarterol yn gyhoeddus. Rwyf yn sicrhau bod fy swyddfa'n hygyrch, yn dryloyw ac yn rhoi'r wybodaeth i'r cyhoedd sydd ei hangen arnynt er mwyn magu eu hyder yn y gwaith sy'n cael ei wneud. Manylir ar y meysydd statudol allweddol ar gyfer cydymffurfio isod.

Ymatebion Arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi:

Mae'n ofynnol i mi ymateb i'r Ysgrifennydd Cartref ar unrhyw adroddiadau arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a baratowyd o dan Adran 55 o Ddeddf yr Heddlu 1996. Yn ystod y flwyddyn ymatebais i 13 adroddiad yn darparu ymateb cyffredinol i'r adroddiad a, ble y bo'n berthnasol, gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai Heddlu Gwent yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion, ac yn canmol gwaith cadarnhaol. Mae ymateb i'r adroddiadau'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch perfformiad plismona, nid yn lleol yn unig, ond yn genedlaethol hefyd. Mae hefyd yn caniatáu i'r Swyddfa Gartref ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth,

Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi bennu meysydd arolygu ar gyfer y dyfodol ac a oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol.

Diogelu data:

Mae gennym Swyddog Diogelu Data sy'n monitro cydymffurfiaeth ac yn ein cyngori ynghylch ein rhwymedigaethau statudol. Ni hysbyswyd am unrhyw achosion o fynediad diawdurdod at ddata yn ystod 2021/22.

Mae Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (Cais am Fynediad) yn gais i weld y wybodaeth bersonol mae sefydliad yn ei chadw amdanoch chi. Derbyniwyd 34 Cais am Fynediad o gymharu â thri yn 2019/20 a 12 yn 2020/21. Roedd dau gais am wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Swyddfa'r Comisiynydd, roedd y gweddill am wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Heddlu Gwent. Rhoddwyd y manylion cyswllt cywir i bob un o'r ymgeiswyr. Mae'r cynnydd wedi digwydd ers i'r heddlu symud i blatfform gwefan cenedlaethol. Mae'r heddlu wedi cael eu hysbysu ac wedi rhoi gwybod i'r tîm cenedlaethol, ac mae esboniad mwy manwl ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd i geisio sicrhau nad yw ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hoedi a'u bod yn cael eu hanfon at y sefydliad cywir.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 64 cais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o gymharu â 31 yn 2020/21. Ymatebwyd i bob cais o fewn y cyfnod ymateb o 20 diwrnod gwaith. Roedd y prif themâu yn ymwneud â chyllid, staffio yn Swyddfa'r Comisiynydd ac ystâd yr heddlu. Derbyniwyd nifer o geisiadau gennym a oedd am wybodaeth weithredol a gedwir gan Heddlu Gwent. Mae cyllid yn thema sy'n codi bob blwyddyn ac yn gyffredinol mae'n cwmpasu cyflogau a chostau swyddfa. Ni dderbyniwyd yr un apêl.

Mae fy swyddfa'n cynnal cynllun cyhoeddi sy'n ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn rhan o'n gweithgareddau busnes arferol ac yn cefnogi'r wybodaeth y mae'n ofynnol inni ei chyhoeddi o dan Orchymyn Gwybodaeth Benodedig 2011. Gwnaethom gydymffurfio'n llwyr yn ystod 2021/22.

SAFONAU'R GYMRAEG

Rydym wedi parhau i weithio i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg cynaliadwy a phrosesau cefnogi effeithiol yn cael eu darparu. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg arolwg o gydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol, a chafwyd sylwadau bod fy swyddfa'n perfformio'n dda, a bod cyfle i gryfhau darpariaethau dwyieithog presennol ymhellach mewn cydweithrediad â Heddlu Gwent. Bydd adroddiad Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar gyfer 2021/22, yn tynnu sylw at gyflawniadau a chanlyniadau perfformiad y flwyddyn. Yn ogystal, rydym wedi parhau i fonitro sut mae Heddlu Gwent wedi darparu gwasanaeth plismona dwyieithog i'r cyhoedd yng Ngwent. Mae perfformiad a chydymffurfiaeth yn erbyn y safonau yn cael ei adolygu yng nghyfarfod mewnol Y Gymraeg, y mae fy swyddfa'n mynychu. Mae rhai heriau o hyd; fodd bynnag, mae canlyniadau perfformiad yn galonogol, a bydd y rheini hefyd

yn destun adroddiad ar wahân. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn nodi ac ystyried ymgyrchoedd addas ac arfer gorau i gefnogi ein nod i ddod yn sefydliadu gwirioneddol ddwyieithog.

EDRYCH I'R DYFODOL

Ym mis Chwefror 2022, ymosododd Rwsia ar Wcráin, gan achosi argyfwng ffoaduriaid mwyaf Ewrop ers yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal â deall beth allai hyn ei olygu i blismona yma yng Ngwent, mae'r codiadau dilynol mewn costau tanwydd, ynghyd ag argyfwng costau byw cynyddol, yn bygwth cael effaith go iawn ar ein cymunedau, gan gynnwys ein swyddogion a staff heddlu. Bydd yn cael effaith enfawr ar blismona fel sefydliad. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd hyn yn ei olygu i ni wrth edrych i'r dyfodol ond bydd yn cael ei ystyried yn ddifrifol wrth gynllunio cyllidebau ac adnoddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.